Yr Ail Ryfel Byd – Nodiadau Athro

I ddechrau:

- Beth ydyn ni eisoes yn ei wybod am yr Ail Ryfel Byd?

Gall disgyblion ailedrych ar yr hyn maen nhw eisoes wedi'i ddysgu yn y gwersi neu bethau y maen nhw'n eu gwybod eu hunain, er enghraifft nain a taid neu hen nain a hen daid a aeth i ymladd / a oedd yn faciwîs / oedd yn byw yn ystod cyfnod dogni.

Dechrau'r Rhyfel (sleid 2)

- Pryd ddechreuodd yr Ail Ryfel Byd?

1 Medi 1939 (daeth i ben ym 1945)

- Beth ydych chi'n meddwl ddigwyddodd yn eich ysgol pan ddechreuodd y rhyfel?

Sleid 2 – Byddai ysgolion wedi cael eu cau. Noda cofnodlyfrau ysgolion '4 Medi. Caeodd yr ysgol yn unol â chyfarwyddiadau am i ryfel gael ei ddatgan' a '4.9.39 Ysgol yn cau – am o leiaf wythnos – gan fod rhyfel wedi cael ei ddatgan'.

Cyrchoedd awyr (Sleidiau 3-21)

- Beth oedd cyrchoedd awyr?

Cyrchoedd awyr oedd pan hedfanai awyrennau'r gelyn dros Brydain gan ollwng bomiau ar yr adeiladau oddi tanynt. Achosodd hwn lawer o ddifrod i adeiladau. Yn aml, roedd pobl yn yr adeiladau hyn, a gwnaeth y bomiau a ollyngwyd anafu a lladd nifer ohonynt. Roedd cyrchoedd awyr hefyd yn cael eu cyfeirio atynt fel y Blits (o'r Almaeneg, 'Blitzkrieg', sy'n golygu 'rhyfel mellt' gan ei fod yn digwydd mor gyflym ac yn ddirybudd).

- Beth ddigwyddodd mewn cyrch awyr? (Defnyddiwch y ddolen i ganu'r seiren)

http://www.bbc.co.uk/schoolradio/subjects/history/ww2clips/sounds/air_raid_siren

Pan glywsai pobl y seiren byddent yn gadael eu cartrefi i fynd i loches. Gallai fod yn lloches Anderson yn yr ardd neu'n lloches gymunedol yn agos i'ch cartref.

- Beth oedd yn rhaid i blant ei wneud yn yr ysgol?

Sleid 3 – Dywed y cofnodlyfr wrthym fod y plant yn Ysgol Parc Ninian, a oedd yn byw gerllaw, yn cael eu danfon gartref gyda'r lleill yn cael eu danfon i lochesi. Byddent yn aros nes i seiren arall ddweud bod popeth yn ddiogel (defnyddiwch y ddolen i ganu'r seiren arall).

Byddai'r plant yn ymarfer beth i'w wneud yn yr ysgol, yn yr un modd ag y byddech chi'n ymarfer beth i'w wneud petai'r larwm tân yn canu.

http://www.bbc.co.uk/schoolradio/subjects/history/ww2clips/sounds/all_clear_siren

- Pa reolau eraill ydych chi'n meddwl yr oedd yn rhaid i bobl eu dilyn i gadw'n ddiogel mewn cyrchoedd awyr?

Sleid 4 – Masgiau Nwy: Roedd yn rhaid i bawb gario masg nwy i bob man. Byddai plant yn mynd â nhw i'r ysgol. Gwnaed masgiau nwy arbennig i ffitio dros bramiau i ddiogelu babanod.

Cyfyngiadau Goleuadau: Roedd yn rhaid i bobl orchuddio ffenestri a drysau â bleindiau neu bapur tywyll fel na allai awyrennau'r gelyn eu gweld oddi fry. Petaent yn gweld goleuadau, byddent yn gwybod bod adeiladau a phobl isod, ac yn eu bomio. Cafodd goleuadau stryd eu pylu neu eu diffodd, felly roedd yn anodd gweld gyda'r nos. Cafodd goleuadau ceir eu pylu, gyda gorchuddion arbennig yn cael eu rhoi arnynt i atal y goleuadau rhag cael eu gweld o'r awyr. Roedd enw arbennig ar gyfer y cyfyngiadau hyn ar oleuadau – y blacowt.

Mesurau Tân: Pan fyddai bomiau'n taro adeiladau byddent yn aml yn achosi tân. Rhoddwyd gwybod i bobl glirio'r atig fel nad oedd pethau ynddynt a allai losgi. Cawsant wybod y dylent gadw bwcedi llawn dŵr yn y tŷ, neu i adael y dŵr yn y bath i helpu i ddiffodd tân.

- Pwy wnaeth yn siŵr bod pobl yn cadw at y rheolau hyn?

Sleidiau 5 a 6 – Helpodd Wardeiniaid Cyrchoedd Awyr (a oedd yn aml yn cael eu galw'n wardeiniaid ARP) i ddiogelu pobl rhag y cyrchoedd awyr. Roeddent yn patrolio'r strydoedd yn ystod blacowt ac yn gwneud yn siŵr fod pob golau wedi'i ddiffodd. Roedd yn waith peryg iawn. Roedd y wardeiniaid yn aml yn ddynion hŷn ac yn ferched. Roedd hyn am fod y dynion iau'n ymladd yn y rhyfel.

- Edrychwch ar rai o'r ffotograffau hyn o wardeiniaid cyrchoedd awyr Caerdydd. Pam fod angen masgiau nwy arnynt?

Sleidiau 5 a 6 – Gallai'r bomiau gynnwys nwy gwenwynig. Cafodd pawb yn y wlad fasg nwy, hyd yn oed babanod, ac roedd yn rhaid eu cario â chi i bobman. Defnyddiwyd nwy yn y Rhyfel Byd Cyntaf felly roedd gan lawer o bobl ofn y câi ei ddefnyddio yn yr Ail Ryfel Byd. Er iddo gael ei gynhyrchu a'i gadw, ni chafodd ei ddefnyddio. Nid oedd yn hawdd anadlu gyda masg nwy, a gwnaeth i lawer o bobl deimlo'n sâl.

- Edrychwch ar y map hwn sy'n dangos safleoedd bomio yng Nghaerdydd. Ydych chi'n adnabod rhai o'r llefydd?

Sleid 7 – Mae'r map hwn yn dangos rhai o'r bomiau a ddisgynnodd mewn un noson. Du = lle tarodd y bom, gwyrdd = yr ardal a ddifrodwyd gan y bom hwnnw. Roedd y cyrch yn anelu am y dociau ond tarodd lefydd fel Heol-y-Frenhines, Sblot ac Adamsdown.

- Edrychwch ar y llythyrau hyn am gyrchoedd awyr yng Nghaerdydd. Sut ydych chi'n meddwl y teimlai'r fenyw a ysgrifennai'r llythyr am y bomio?

Sleid 8 – (8 Ionawr 1941) Ysgrifennwyd y llythyr hwn gan fenyw o'r enw Pat a oedd yn byw yng Nglan-yr-afon yng Nghaerdydd yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Roedd ei chariad, Jack, i ffwrdd gyda'r Awyrlu Brenhinol. Ysgrifennodd Pat ato bob diwrnod. Mae ei llythyrau'n disgrifio sut y cafodd Caerdydd ei heffeithio gan y Rhyfel. Yn y llythyr hwn ysgrifenna Pat, 'Cawson ni "Flits" yng Nghaerdydd rai nosweithiau'n ôl. Cafodd ambell fom, ffrwydryn a bomiau tân eu gollwng yn agos iawn at y cartref. Mae hi'n ddrwg iawn ar rai pobl, dim cartrefi ... Neville Street gafodd y gwaethaf ohoni ... daeth holl lechi ein to ni lawr, ac roedd llawer o dyllau yn y to..'

Dywed Pat wrthym fod nifer o bobl yng Nghaerdydd wedi colli eu cartrefi oherwydd y cyrchoedd awyr.

Sleid 9 - (22 Mai 1941) Llythyr arall gan Pat at Jack yw hwn. Y tro hwn mae hi'n ysgrifennu, 'Mae'n siŵr dy fod wedi sylwi bod cyfeiriad newydd gennym? Y rheswm am hyn yw am nad oes rhif pump Brooke Street mwyach, oherwydd bod bomiau wedi'u gollwng ar stryd Hirrell yn ystod y Blits diwethaf, ac mae pob tŷ ar y stryd wedi'i gondemnio...'

Dywed Pat wrthym fod y bobl yn y tŷ '...wedi dianc heb fawr fwy na chleisiau a briwiau'. Roeddent yn ffodus iawn.

- Edrychwch ar y ffotograffau hyn o dai wedi'u bomio yng Nghaerdydd. Beth welwch chi?

Sleidiau 10-13 – Mae'r ffotograffau hyn yn dangos y difrod a achoswyd i dai yng Nghaerdydd gan fomiau a ollyngwyd yn ystod cyrchoedd awyr rhwng 1941 a 1942. Roedd gan y rhan fwyaf o dai lochesi i'w gwarchod rhag y bomiau – adeiladwyd rhai mewn gerddi (sef llochesi Anderson), a rhai mewn tai y gellid eu defnyddio fel bwrdd (sef Llochesi Morrison). Anogwyd pobl i fynd dan ddaear, yn Llundain er enghraifft byddai pobl yn aml yn cysgu mewn twneli tanddaearol yn ystod cyrch.

.

- Beth ydych chi'n meddwl ddigwyddodd i bobl os cafodd eu tai eu taro gan fomiau? (cofnod – ceginau brys yn yr ysgol)

Sleid 14 – petai'ch tŷ'n cael ei ddifrodi, gallech wneud cais i'r llywodraeth ei drwsio. Gallech hefyd fynd i geginau cymunedol i gael bwyd petai'ch cegin wedi'i difrodi ac na allech goginio gartref.

Sleid 15 – Byddai adeiladau lleol fel ysgolion yn cael eu troi'n Ganolfannau Gorffwys ar ôl cyrch mawr. Athrawon fyddai'n rhedeg y Ganolfan Orffwys felly ni allai'r plant fynd i'r ysgol.

- Edrychwch ar y cofnod hwn. Beth ddigwyddodd i'r ysgol hon yn ystod y rhyfel?

Sleid 16 - Er nad oeddent yn cael eu targedu gan fomiwyr, byddai ysgolion weithiau'n cael eu taro drwy ddamwain. Mae'r cofnod hwn yn dweud wrthym fod

Ysgol Parc Ninian yn Grangetown, Caerdydd wedi cael ei tharo gan fom. Torrwyd 140 cwarel o wydr yn y ffenestri, roedd 3 thwll yn y to, ac nid oedd gan yr ysgol ddŵr, nwy na gwres. Byddai hyn wedi tristáu'r athrawon a'r plant, ond roedd y pennaeth yn ddiolchgar nad anafwyd unrhyw un, a bod modd trwsio'r difrod.

- Ydych chi'n meddwl y cafodd lawer o bobl eu brifo yn y bomio?

Sleid 17 – Mae'r llun hwn yn dangos merch o'r enw Anne a anafwyd ym mis Gorffennaf 1941 ynghyd â'i mam yn ystod cyrch, ac aeth i Aberogwr i wella.

Sleid 18 – Llun o Anne a'i dosbarth yn Ysgol Iau Tredelerch.

Sleidiau 19-21 - Mae'r rhain yn dangos llythyrau gan ffrindiau Anne ac athro yn yr ysgol. Gwnaeth un ferch, Jean (Sleid 20) hyd yn oed anfon bar o siocled at Anne, a fyddai wedi bod yn arbennig iawn bryd hynny. Roedd yn anodd iawn cael gafael ar siocled oherwydd dogni.

3. Faciwîs (Sleidiau 22-29)

- Ydych chi'n meddwl y byddai hi wedi bod yn ddiogel byw mewn dinasoedd mawr fel Caerdydd ac Abertawe yn ystod y rhyfel?

Na fyddai. Roedd cyrchoedd awyr yn aml yn canolbwyntio ar ddinasoedd mwy ac yn achosi cymaint o ddifrod â phosib.

- Mae'r cofnod hwn o gofnodlyfr yr ysgol yn sôn am faciwîs. Pwy oedden nhw?

Sleid 22 – 'Cyfarfod Penaethiaid Coleg Technegol i drafod symud plant ysgol'.

Y faciwîs oedd plant a ddanfonwyd o'r dinasoedd mawr i gefn gwlad, i'w diogelu rhag cyrchoedd bomio. Roedd labeli wedi'u hatodi i'w dillad fel petaent yn barseli. Cawsant eu gwahanu o'u teulu, a gallai brodyr a chwiorydd gael eu gwahanu rhwng teuluoedd gwahanol. Roedd yn rhaid iddynt wneud ffrindiau newydd a dechrau ysgolion newydd. Nid oedd rhai ohonynt erioed wedi bod yng nghefn gwlad.

- Dywed y llythyr hwn wrthym am blant o Gaerdydd yn cael eu symud.

Sleid 23 – 'Wyddech chi Jack, fod rhai o'r plant yn cael eu symud o Gaerdydd, o'r ardaloedd peryglus fel:- y dociau a gwaith Dowlais (y gwaith haearn)'

- I ble aeth faciwîs?

Sleidiau 24-25 – fe'u hanfonwyd i lefydd diogel fel cefn gwlad neu hyd yn oed dramor. Dengys Sleid 25 gofnodlyfr yn dweud bod '59 mewn grwpiau wedi'u cofrestru yma – gadawsant oll ddydd Sadwrn (am Dreherbert)' sydd lai nag awr o ganol Caerdydd!

- Edrychwch ar y cardiau hyn ar gyfer ddwy chwaer a oedd yn faciwîs o Gaerdydd.

I ble cawsant eu hanfon? Faint o oed ydyn nhw? Ydych chi'n meddwl y byddai wedi codi ofn ar blant yn cael eu danfon yr holl ffordd i Ganada ar eu pen eu hunain?

Sleid 26 – Fe'u hanfonwyd i Ganada (gweler teitl y cerdyn 'Adran Pensiynau ac Iechyd Cenedlaethol' Canada) ac roeddent yn 7 a 10 oed yn cael eu danfon i Ganada ar eu pen eu hunain.

4. Dogni (Sleidiau 27-36)

- Gwyddom erbyn hyn fod Caerdydd wedi cael ei fomio yn ystod y rhyfel oherwydd y dociau, i atal glo rhag cael ei allforio ac i atal nwyddau rhag dod i'r wlad. Golygai'r bomio ei bod yn anodd i longau ddod â nwyddau i'r DU, gan gynnwys i Gaerdydd. Beth ydych chi'n meddwl ddigwyddodd o ganlyniad i hyn?

Roedd prinder bwyd a nwyddau.

- Os nad oedd cymaint o fwyd ar gael ag arfer, beth ydych chi'n credu ddigwyddodd?

Cyflwynwyd dogni gan y Llywodraeth fel bod pawb yn cael cyfran gyfartal.

- Sut cafodd pobl eu dogn nhw?

Sleid 27 – Dyma lyfr dogni. Roedd pobl dim ond yn gallu mynd i siopau penodol i gasglu eu bwyd. Unwaith iddyn nhw dderbyn gwerth wythnos o fwyd, fe'i marciwyd yn y llyfr dogni fel bod pawb yn cael yr un faint.

- Pa fath o fwyd ydych chi'n meddwl oedd yn cael eu dogni?

Roedd pob math o fwyd bob dydd fel bara, menyn ac wyau yn ogystal â bwyd o dramor fel bananas a losin yn cael eu dogni.

- Edrychwch ar y cofnod hwn; mae'n sôn am anrhegion o UDA. Pam ydych chi'n meddwl y bydden nhw'n anfon anrhegion?

Sleid 28 - 'Roedd yr anrhegion yn cynnwys bocsys o losin a gemau.' Doedd dim llawer o losin na theganau yma oherwydd y prinder a'r dogni.

- Edrychwch ar y cofnod hwn. Mae'n sôn am *Dig for Victory.* Beth oedd hyn?

Sleidiau 29-32 - Mae'r rhain yn dangos cynlluniau'r llywodraeth i annog pobl i dyfu eu bwyd eu hunain yn eu gerddi neu randiroedd. Anogwyd plant ysgol i bigo ffrwythau a gwneud jam.

- Edrychwch ar y cofnodion hyn am brinder cyflenwadau eraill. Beth arall sydd wedi'i ddogni? (papur, sebon, dillad ac ati)

Sleid 33 – Mae hyn yn dangos dogni sebon a phapur. Roedd dillad hefyd yn cael eu dogni a arweiniodd at yr ymgyrch 'Make Do and Mend'.

- Mae'r cofnodlyfr yn sôn am Make Do and Mend. Beth oedd hyn?

Sleidiau 34-36 – Anogai hyn bobl i wneud dillad gartref neu drwsio eu hen ddillad yn hytrach na phrynu dillad newydd. Roedd pobl yn aml yn gwau pethau fel menig a hetiau i'r dynion oedd ar faes y gad.

5. Goresgyniad (Sleid 37)

- Pwy enillodd yr Ail Ryfel Byd?

Prydain

- Pe na baem wedi ennill y rhyfel, beth fyddai wedi digwydd?

Byddai'r Almaen wedi goresgyn Prydain.

- Ydych chi'n meddwl bod gan bobl ofn y gallai hyn ddigwydd?

- Edrychwch ar y ddogfen hon a roddodd wybod i bobl beth i'w wneud petai'r Almaen yn goresgyn.

Sleid 37 – Caiff pobl eu hysbysu i aros yn lle maen nhw ac i beidio â cheisio rhedeg i ffwrdd o'u cartrefi. Ni ddylent ychwaith ledu sïon a allai godi ofn ar bobl.

6. Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop (Sleidiau 38-39)

- Edrychwch ar y cofnodion hyn. Maen nhw'n sôn am Ddiwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop. Beth wnaeth pobl ar y diwrnod hwn? Beth ddigwyddodd yn yr Ysgol?

Sleid 38 – Roedd yr ysgol ar gau am ddeuddydd ac addurnwyd y neuadd. Cafwyd gwasanaeth diolchgarwch.

- Wyddoch chi beth oedd Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop?

Dyma'r diwrnod a ddathlwyd ar 8 Mai 1945 i nodi diwedd yr Ail Ryfel Byd yn Ewrop.

- Sut ydych chi'n meddwl y cafodd ei ddathlu?

Sleid 39 – Partïon stryd fel y rhai ar gyfer y briodas frenhinol yn 2011. Yn y llun hwn mae llawer o blant a phobl ifanc a rhai dynion hŷn. Doedd y rhan fwyaf o'r dynion iau heb ddychwelyd o'r rhyfel eto.

- Ydych chi'n meddwl bod pobl yn hapus bod y rhyfel ar ben?

Syniadau sesiwn drafod:

- Beth yw'r peth mwyaf diddorol rydych chi wedi'i ddysgu?
- Beth yw'r tri gair pwysicaf o'r gweithgaredd hwn?
- Beth hoffech chi ei ddysgu mwy amdano?

<u>Gweithgaredd posib yn seiliedig ar y gweithdy hwn:</u>

- Dylunio'r lloches orau y gallwch gyda'r deunyddiau a roddwyd i chi.
- Creu poster i annog pobl i ymladd yn y rhyfel neu dyfu eu bwyd eu hunain – ceisiwch ddefnyddio geiriau sy'n dwyn perswâd ar bobl!
- Pa 10 eitem hoffech chi eu pacio yn eich siwtces petaech chi'n faciwî?
- Cawsai pawb 48 cwpon am ddillad i bara blwyddyn gron. Côt = 5, trwser = 6, sgert = 4, ffrog = 5, pyjamas = 6, cardigan neu siwmper = 5, dillad isaf = 2, menig, hetiau neu sgarffiau = 2 a hosanau = 1. Beth fyddech chi'n ei brynu i bara blwyddyn? Cofiwch na allwch wario mwy na 48.